Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Arweiniad i lwyfannau rhannu fideos: Canllawiau i ddarparwyr ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol

Datganiad

Dyddiad Cyhoeddi: 6 Hydref 2021

# 1. Trosolwg

### Arweiniad drafft – yn gryno

Mae Ofcom wedi cael pwerau newydd i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSPs) a sefydlir yn y DU. Nod rheoleiddio VSP yw diogelu defnyddwyr VSPs rhag mathau penodol o ddeunydd niweidiol mewn fideos. Mae hyn yn cynnwys diogelu pobl dan 18 oed rhag deunydd niweidiol posibl a phob defnyddiwr rhag deunydd sy'n cymell trais neu gasineb, a chynnwys troseddol mewn cysylltiad â therfysgaeth; deunydd cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia. Hefyd bydd angen i VSPs sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau penodol o ran hysbysebion.

Mae'r fframwaith statudol yn nodi rhestr o fesurau y mae'n rhaid i ddarparwyr ystyried eu rhoi ar waith, fel y bo'n briodol, i sicrhau'r diogelwch gofynnol. Daeth y gofynion newydd hyn i rym ar 1 Tachwedd 2020.

Ymgynghorodd Ofcom ar ganllawiau drafft i ddarparwyr VSP ar y gofynion rheoleiddiol rhwng 24 Mawrth 2021 a 2 Mehefin 2021. Roedd hyn yn rhoi sylw i'r mesurau a nodir yn y fframwaith statudol a sut gellid eu rhoi ar waith. Roedd y canllawiau drafft yn cynnwys, ymysg pethau eraill, gwybodaeth am y canlynol:

- Cael a gorfodi telerau ac amodau ar gyfer deunydd niweidiol
- Cael mecanweithiau fflagio ac adrodd, a'u gweithredu'n effeithiol
- Rhoi mesurau sicrwydd oedran priodol ar waith i ddiogelu pobl dan 18 oed, gan gynnwys dilysu oedran ar gyfer pornograffi.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y canllawiau drafft, gan gynnwys y dystiolaeth yr oeddem wedi dibynnu arni i gefnogi'r canllawiau.

Pwrpas ein canllawiau yw helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall:

a) y gofynion rheoleiddiol o dan y Fframwaith VSP sy'n ymwneud â diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol;

b) pa fathau o gynnwys a allai fod yn ddeunydd niweidiol mewn fideos;

c) y mesurau gall llwyfannau eu rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol a chanllawiau ar sut mae rhoi'r mesurau hynny ar waith yn effeithiol;

d) y meini prawf ymarferol a chymesur y mae'n rhaid i ddarparwyr eu hystyried wrth bennu pa fesurau i'w rhoi ar waith;

e) sut a pham mae camau ychwanegol i helpu i ddiogelu defnyddwyr yn cael eu hannog, gan gynnwys rhoi proses rheoli risg ar waith;

f) gwybodaeth am ddull Ofcom o fonitro a gorfodi.

Cawsom 28 ymateb i gyd, gan gynnwys 9 gan ddarparwyr gwasanaethau. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus wrth lunio ein canllawiau'n derfynol ac wedi cyhoeddi'r holl ymatebion nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan. Cawsom ymatebion ar amrywiaeth o faterion ar draws yr

16 cwestiwn a godwyd yn yr arweiniad drafft. Rydym wedi nodi'r rhain yn fanwl, yn ogystal â'n casgliadau, yn adran 2 y ddogfen hon.

Bu hefyd i ni drafod ein canllawiau yn ystod y cyfnod ymgynghori â darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau rheoleiddio eraill. Lle bo'n briodol, rydym wedi adlewyrchu eu sylwadau yn y datganiad hwn ac yn ein canllawiau terfynol.

Rydym wedi cyhoeddi ein canllawiau terfynol ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

Mae modd i ddarparwyr e-bostio Ofcom yn VSPRegulation@ofcom.org.uk os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y canllawiau terfynol neu unrhyw agweddau eraill ar reoleiddio VSP.

Gallwch hefyd ddarllen am nodau Ofcom ar gyfer y Gyfundrefn VSP a'r gwaith rydym wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ein dogfen Cynllun a Dull Gweithredu.

# 2. Cyflwyniad

## Cefndir

2.1 Mae llwyfannau rhannu fideos a sefydlir yn y DU yn destun rheoliadau statudol newydd. Mae'n rhaid i ddarparwyr VSP roi mesurau priodol ar waith i ddiogelu pobl dan 18 oed rhag deunydd niweidiol posib ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag deunydd sy'n cymell trais neu gasineb, a deunydd penodol arall y byddai ei gynnwys yn drosedd. Hefyd mae angen i wasanaethau sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau penodol o ran hysbysebion.[1] Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol yn y DU. Mae'n gyfrifol am oruchwylio'r drefn reoleiddio hon.

2.2 Mae'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio VSPs wedi'i amlinellu yn Rhan 4B Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"). Cafodd Rhan 4B ei chyflwyno o dan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol i weithredu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ("AVMSD" neu'r "Gyfarwyddeb") ddiwygiedig, a daeth i rym ar 1 Tachwedd 2020.[2] Yn y ddogfen hon rydym yn cyfeirio at y fframwaith rheoleiddio a amlinellir yn Rhan 4B o'r Ddeddf fel "y Fframwaith VSP" neu'r "Gyfundrefn VSP".

2.3 Mae'r Fframwaith VSP yn mynnu bod darparwyr yn rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol mewn fideos. Mae rhestr o'r mesurau y mae'n rhaid i ddarparwyr ystyried eu defnyddio wedi'i nodi yn Atodlen 15A y Ddeddf. Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu canllawiau, ac ymgynghori arnynt, ar gyfer darparwyr llwyfannau rhannu fideos ynghylch y mesurau yn Atodlen 15A a allai fod yn briodol ar gyfer diogelu defnyddwyr rhag y categorïau penodol o ddeunydd niweidiol, a rhoi'r mesurau hyn ar waith. Dyma'r mesurau yn gryno:

a) mesurau sy'n ymwneud â thelerau ac amodau

b) mesurau sy'n ymwneud ag adrodd, fflagio neu sgorio cynnwys

c) mesurau rheoli mynediad fel sicrwydd oedran a rheolaethau rhieni

d) prosesau cwyno

e) adnoddau a gwybodaeth ynghylch llythrennedd yn y cyfryngau.

2.4 I helpu i ddatblygu'r canllawiau, gofynnodd Ofcom am wybodaeth gan y diwydiant a rhanddeiliaid eraill drwy gais am dystiolaeth yn ystod haf 2020, a chomisiynu ymchwil defnyddwyr ac academaidd newydd. Cafodd dogfen ymgynghori ei chynhyrchu gennym. Roedd yn cyflwyno'r canfyddiadau hyn a, lle bo'n berthnasol, meysydd eraill a ystyriwyd

---

[1] Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at "gyfathrebiadau masnachol clyweledol" ("AVCCs"). Mae AVCCs yn derm sy'n cael ei ddefnyddio ar draws nifer o sectorau ac mae'n cynnwys hysbysebu, yn ogystal â noddi, telesiopa a gosod cynnyrch, yn ogystal â marchnata dylanwadwyr a mathau eraill o gyfathrebiad masnachol sy'n gysylltiedig â VSPs. Yn y canllawiau hyn, defnyddir "hysbysebion" a "hysbysebu" i gyfeirio'n gryno at "AVCCs".

[2] Mae rhai agweddau ar y drefn, fel y gofyniad i hysbysu Ofcom a thalu ffi, yn dod i rym yn hwyrach.

gennym yn ein canllawiau drafft. Mae fersiwn lawn o'r canllawiau VSP drafft ar gael ar wefan Ofcom.

2.5 Mae disgwyl y bydd y drefn reoleiddio ar gyfer llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'u sefydlu yn y DU yn cael ei disodli â deddfwriaeth newydd ar ôl cychwyn y fframwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein. Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Bil Diogelwch Ar-lein drafft, gan gadarnhau ei bwriad i ddiddymu Rhan 4B o'r Ddeddf yn y pen draw. Bydd y ddeddfwriaeth diogelwch ar-lein yn berthnasol i ystod ehangach o lawer o wasanaethau ar-lein, gan gynnwys gwasanaethau nad ydynt wedi'u sefydlu yn y DU. Bydd Ofcom yn gweithredu'r Fframwaith VSP nes ei fod yn dod i ben ac yn sicrhau bod cymorth ar gael i wasanaethau sy'n pontio o'r Fframwaith VSP i'r fframwaith diogelwch ar-lein.

## Dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs

2.6 **Mae'n rhaid i VSPs sy'n rhan o'r cwmpas hysbysu Ofcom:** Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried a yw eu gwasanaeth yn bodloni'r cwmpas a'r meini prawf awdurdodaethol a nodir yn y Ddeddf. Os felly, rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad ffurfiol o'u gwasanaeth i Ofcom. Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau i helpu darparwyr i asesu a yw eu gwasanaeth yn rhan o'r cwmpas a bod angen ein hysbysu amdano.[3] Rydym wedi cyhoeddi rhestr o ddarparwyr VSP sydd wedi ein hysbysu ar ein gwefan a byddwn yn ei diweddaru pan fydd gwasanaethau newydd yn ein hysbysu.[4]

2.7 **Rhaid i ddarparwyr roi mesurau priodol ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol:** Mae'r canllawiau wedi'u dylunio i helpu darparwyr i ystyried pa fesurau o blith y rhai a restrir yn Atodlen 15A o'r Ddeddf sy'n briodol eu defnyddio, a sut gellir rhoi'r mesurau hyn ar waith yn effeithiol. Nid yw'r canllawiau ar y mesurau diogelwch yn rhagnodol. Eu bwriad yw cynnig awgrymiadau i gynyddu dealltwriaeth o sut gellir diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol yn briodol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ffyrdd eraill o roi mesur ar waith er mwyn ateb yr un diben.[5] Os ydym yn credu bod defnyddwyr yn annhebygol o gael eu diogelu'n ddigonol heb ddull penodol, rydym yn nodi hynny yn ein canllawiau. Rydym yn argymell bod darparwyr yn rhoi prosesau rheoli risg systematig ar waith i'w helpu i nodi a defnyddio mesurau sy'n ymarferol, yn gymesur, ac yn diogelu defnyddwyr. Mae'r canllawiau'n esbonio sut gellir gwneud hyn.

2.8 **Byddwn yn monitro ac yn asesu cydymffurfedd darparwyr VSP â'u rhwymedigaethau rheoleiddiol:** Byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr VSP i ddeall arferion presennol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaethau. Byddwn yn eu helpu i ddeall beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt a beth yn rhagor mae angen iddynt ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau a nodir. Byddwn yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fonitro ac asesu cydymffurfedd darparwyr, gan gynnwys: arfer ein pwerau casglu gwybodaeth ffurfiol; adolygu'r tueddiadau yng nghwynion defnyddwyr i Ofcom; ymgysylltu'n anffurfiol â'r

---

[3] Rhaid hysbysu drwy borth pwrpasol ar y we ar wefan Ofcom.
[4] Mae'r rhestr o VSPs sydd wedi hysbysu Ofcom ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/cymru/online-safety/information-for-industry/vsp-regulation/notified-video-sharing-platforms
[5] Efallai y bydd mesurau eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn y Fframwaith VSP a allai sicrhau'r un diogelwch.

llwyfannau; ac ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau diogelwch technoleg, mudiadau cymdeithas sifil, ac elusennau sydd â diddordeb mewn diogelwch ar-lein. Hefyd byddwn yn parhau i ddefnyddio ein rhaglen helaeth o ymchwil defnyddwyr i ddeall profiadau defnyddwyr ar-lein ac i fonitro tueddiadau.

2.9 **Hyblygrwydd a chymesuredd fydd sail ein dull:** Mae'r gwaith rheoleiddio'n canolbwyntio ar sicrhau bod llwyfannau'n cymryd camau priodol i ddiogelu eu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Mae amrywiaeth y farchnad VSP golygu bod y risgiau gallant eu peri, a'r mesurau diogelu y mae angen iddynt eu cynnig i ddiogelu defnyddwyr, yn amrywio. Felly, ni fydd Ofcom yn mabwysiadu agwedd 'ticio blychau' at gydymffurfedd. Cyfrifoldeb darparwyr VSP fydd penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r risgiau mae eu gwasanaethau'n eu peri a chymryd camau gweithredu sy'n gymesur i'r risg o niwed, ac sydd wedi'u teilwra i'r amgylchiadau maen nhw'n eu hwynebu. Byddwn yn mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth, gan dargedu'r risgiau mwyaf o niwed ac asesu effeithiolrwydd mesurau diogelwch cwmnïau. Rydym yn disgwyl i gwmnïau fod yn rhagweithiol, gan rag-weld risgiau a chymryd camau diogelu cymesur. Nid yw hyn yn golygu monitro cyffredinol ar gyfer cynnwys niweidiol. Mae'n golygu y dylai llwyfannau weithio'n rheolaidd ac yn systematig i fynd i'r afael â risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu eu defnyddwyr yn effeithiol gan ddefnyddio mesurau priodol.

2.10 **Byddwn yn arddel agwedd gyfannol at gydymffurfedd:** Byddwn yn ystyried y camau mae darparwyr wedi'u cymryd i nodi a lliniaru risgiau deunydd niweidiol, ac ymdrechion cyffredinol llwyfan i ddarparu mesurau diogelu priodol ar gyfer eu defnyddwyr. Bydd dealltwriaeth Ofcom o ba fesurau sy'n briodol a'r hyn sy'n golygu diogelwch effeithiol i ddefnyddwyr yn datblygu dros amser, ac rydym yn cydnabod y bydd y llwyfannau eu hunain, a'r risg o niwed ar lwyfannau, yn datblygu.

2.11 **Cymryd camau gorfodi cadarn os gwelwn nad yw niwed sylweddol yn cael sylw:** Gall darparwyr ddisgwyl agwedd gadarn, ond teg, at ein dyletswyddau newydd. Rydym yn disgwyl i lwyfannau ymgysylltu'n adeiladol ac yn agored ag Ofcom, a bod yn fodlon gwella lle bo angen. Er bod gennym bwerau gorfodi ffurfiol, yn gyffredinol byddwn yn mynd ati i ddatrys problemau â llwyfannau cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol. Os bydd Ofcom yn penderfynu bod angen cymryd camau gorfodi ffurfiol, byddwn yn ymchwilio i'r mater i weld a oes achos o dorri wedi bod, a pha gamau pellach allai fod yn briodol. Pan fyddwn yn cofnodi achos o dorri, mae gennym y pŵer i gyhoeddi sancsiynau o dan y Fframwaith VSP a allai gynnwys mynnu bod y darparwr yn cymryd camau penodol, rhoi cosb ariannol, a/neu atal neu gyfyngu ar y gwasanaeth.

**Diogelu rhyddid mynegiant**: mae rhyddid mynegiant yn hawl ddynol sylfaenol a byddwn yn ei ystyried bob amser.[6] O dan y Gyfundrefn VSP, nid oes rhwymedigaethau ar gwmnïau eu hunain i gynnal rhyddid mynegiant, ond mae Ofcom wedi'i rwymo'n gyfreithiol i ystyried yr hawliau sylfaenol hyn. Mae ein canllawiau i ddarparwyr VSP wedi cael eu cynhyrchu'n gyson â'r hawliau hyn.

---

[6] Mae'r hawl i ryddid mynegiant yn bodoli yn y gyfraith gyffredin ac yn Neddf Hawliau Dynol 1998, sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan gynnwys Erthygl 10, mewn cyfraith ddomestig.